



I le mae'r corachod bach yn mynd?
Mae'r ateb ar dudalen 7 oddi mewn.

Cylch Rhagorol



Mae'n hysbys ers amser fod Cylch Meithrin ardderchog yn Nhal-y-bont, ond bellach mae'n swyddogol! Yn dilyn arolwg ar Ragfyr y 4ydd gan yr arolygydd Beti Griffiths dyfarnwyd statws CYLCH RHAGOROL iddo. Mae derbyn sêl y Cylch Rhagorol yn un o'r meini prawf sy'n galluogi'r Cylch i ddarparu addysg ar gyfer plant tair oed. Dywedodd yr arolygydd yn ei hadroddiad "darperir awyrgylch gynnes, Gymreig a chroesawgar ar gyfer y plant, llongyfarchiadau i staff a phlant Cylch Meithrin Tal-y-bont ar eu gwaith ardderchog ac i'r pwyllgor am ei ymroddiad".

- Dyma rai o'r sylwadau a nododd yr Arolygydd yn yr adroddiad (sy'n cynnwys dros 50 o sylwadau cadarnhaol!)**
- Mae'r Rhaglen Addysgiadol tymor hir, canolig a byr wedi ei seilio'n gadarn ar y Meysydd Dysgu.
 - Mae'r oedolion yn cynnig model iaith dda i'r plant.
 - Mae gan y Staff agweddau cadarnhaol tuag at addysgu'r plant.
 - Mae gan y Cylch drefn hwylus o asesu a chofnodi cynnydd plant wedi ei seilio'n gadarn ar y Meysydd dysgu.
 - Bydd y staff yn manteisio ar gyfleoedd naturiol yn nhrefn gweithgaredd y sesiwn i gynorthwyo'r plant i ddeall iaith a chysyniadau mathemategol.

- Trefnir amrywiaeth o weithgareddau fydd yn hybu ymwybyddiaeth y plant o fyd gwaith.
- Mae'r cylch yn trefnu cyfleoedd i'r plant fynd allan o'r cylch i fwynhau nature ac i ryfeddu ato.
- Caiff y plant y profiad gwerthfawr o berfformio Drama'r Geni.

Llongyfarchiadau mawr i'r arweinyddion Sian Evans ac Anwen Southgate, y plant a'r Pwyllgor Rheoli.

Caffi Clettwr

Bydd ein darllenwyr yn falch iawn o glywed bod y Garej, Siop a Chaffi Clettwr wedi ail-agor yn 2007 gyda rheolwyr newydd.

Bydd Peter Zalek o Fachynlleth yn rhedeg y garej a'r siop a Julie o Fachynlleth hefyd yn rhedeg y caffi gyda chymorth ei merch Emma sy'n byw yn Bow Street.

Oriau agor y garej a'r siop yw 7.30 – 7.00 bob diwrnod.
Oriau agor y caffi yw 8.30 – 4.30 o Sul i Gwener ac 8.30 – 5.00 ay Ddydd Sadwrn.

Dymunwn yn dda iddynt a'r staff ar ddechrau blwyddyn a menter newydd.

Papur Pawb		
Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion post@garnwen.org Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832473
Tynnu lluniau: Teipyddes:		
Bont-goch: Parsel Henllys: Eglwysfach: Talesin: Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Talesin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn	832295 832498 (01654) 781312 832672 832438 832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog	832429 (01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
Cadeirydd: Is-gadeirydd: Ysgrifennydd: Trysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygu: Dosbarthwyr:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgriadau)	832660 832448 832384 832560 832438 (01654) 781312
Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg		

Dyddiadur

IONAWR

- 12
Dathlu Hen Galan. 6.30, Gwaelod y Neuadd. Croeso cynnes i bawb
- 14
Bethel 2 Gweinidog Nasareth 10 Elwyn Pryse (C) Rehoboth 5 Elwyn Pryse Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Cymun Bendigaidd
- 15
Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch. Caryl Lewis, Goginan: Gemwaith
- 17
Clwb Ffermwyr Ifanc. 8, Noson Bingo, Neuadd Goffa, Tal-y-bont
- 18
Sefydliad y Merched Tal-y-bont. Cyfarfod Prynhawn, 2-3, Parch David Gibson
- 19
C.Ff.I.: Cinio Blynnyddol
- 21
Bethel 10 Gweinidog Nasareth 10 T.J. Irfon Evans Rehoboth 5 W.J. Edwards (C) Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaidd
- 23
C.Ff.I.: Noson Siôn a Siân
- 28
Bethel 6 Parch John Tudno Williams Nasareth 10 Terry Edwards Rehoboth 10 Huw Roderick Eglwys Dewi Sant 9.30 Boreol Weddi
- 30
C.Ff.I.: Noson Drydanol!

CHWEFROR

- 3
'Eisteddfod Cwmffradach'. Ffars gan Gwmni Troed-y-rhiw, Neuadd Goffa, Tal-y-bont, 7.30
- 4
Bethel 2 Gweinidog Nasareth 10 R.H. Lewis-Bethel

- Rehoboth 10 Gwyn Davies Eglwys Dewi Sant 2.30 Cymun Bendigaidd
- 5
Pwyllgor y Sioe, 8.00.
- 6
C.Ff.I.: i'w gadarnhau
- 11
Bethel 10 Gweinidog Nasareth 2 Walford L. Gealy Rehoboth 2 D. Llewelyn Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Cymun Bendigaidd
- 14
Cyfarfod Cyffredinol Neuadd Goffa, Tal-y-bont, 8.00, Gwaelod y Neuadd
- 15
Sefydliad y Merched Tal-y-bont. Cyfarfod Prynhawn: Sgwrs am reilffyrdd bach
- 16
Clwb Nos Wener – Dathlu'r Hen Galan, 6.30, Gwaelod y Neuadd
- 18
Bethel 2 Parch W.J. Edwards Nasareth 5 J. Tudno Williams (C) Rehoboth Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaidd
- 19
Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch. Sion Glyn: Coginio
- 25
Bethel 2 Gweinidog Nasareth 2 R.H. Lewis-Bethel Rehoboth 5 T.J. Irfon Evans (C) Eglwys Dewi Sant 9.30 Boreol Weddi

Os an ddesu neu heb intni

CAMBRIAN CABS

Welshian Bell at Ager

01970 626292



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Un o'r prif ddigwyddiadau yng nghalendr y gangen yw y gwasanaeth Nadolig. Yn flynyddol y mae llwyddiant y gwasanaeth yn ddibynnol ar gyfraniadau mudiadau, sefydliadau a chymdeithasau'r ardal. Cynhaliwyd y gwasanaeth ar 17 Rhagfyr yng nghapel Bethel. Yn y gwasanaeth cafwyd eitemau amrywiol ar lafar ac ar gân, yn gerdd dant, deialog, barddoniaeth, darlenniadau a charolau a'r cyfan yn fodd i greu noson i'w chofio wrth ddathlu'r Nadolig gyda'n gilydd. Yn ystod y noson derbyniwyd casgliad o £210 tuag at Apêl 'Na'd fi'n angof' Hafan y Waun, Aberystwyth. Yn y llun mae Mr Peter Close, Trysorydd yr Apêl, yn derbyn yr arian oddi wrth Enid Gruffydd, Falyri Jenkins a Non Jenkins.

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT Cynhelir

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

o BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD ar

NOS FERCHER, 14 CHWEFROR 2007 yng ngwaelod y Neuadd am 8.00 o'r gloch Croeso i bawb

Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau oddi mewn i'r gymuned. Anfoner ceisiadau, ynghyd â chopi o'r fantolen ariannol ddiweddaraf, at y Clerc, Goronwy Wyn Jones, Glasgoed, Talybont SY24 5HH erbyn 3 Chwefror 2007 fan bellaf.

A DAVIES TRYDANOL

Tŷ Morben Isaf Derwenlas MACHYNLLETH Powys SY20 8SR

ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Gwyn a Fal, gyda Ian yn dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Medi 832725, a Nic 832001, gyda Iolo iolo.apgwynn@tiscali.co.uk yn dylunio. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd 2 Chwefror 2007 a bydd y papur ar werth ddydd Gwener 9 Chwefror.

CYDYMDEIMLO

Wrth i'r papur fynd i'r wasg daeth y newyddion bod Mrs Menna Jones, Mertyn, Tal-y-bont, wedi marw'n sydyn. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i phlant William, Mair a Richard a'u teuluoedd.

SWYDD NEWYDD

Pob lwc i Jane Henley, Penlonlas, Tal-y-bont, yn ei swydd newydd yn isadran Datblygiadau Digidol y Llyfrgell Genedlaethol.

GWELLHÂD BUAN

Dymunwn wellhâd buan i Mrs Joan Dare, Bwlch-rosser, Mr Geraint Evans, Llawrcwmbach, a Mr Jim Owen, Hengoed, Bont-goch sydd wedi treulio cyfnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

PRIODAS

Llongyfarchiadau i Nicky Edwards, Yr Hen Ficerdy, Bont-goch a Tristan ar eu priodas yn ddiweddar yn Antigua. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Bolton, ger Manceinion. Dymunwn yn dda iddynt yn eu bywyd priodasol.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn a Mrs Standing, Tre'r ddôl sydd newydd golli ei chwaer.

YN YR YSBYTY


Dymunwn yn dda i Florence Stubbs, Frongoch Villa, Tre'r ddôl sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bronglais.

YMDDEOLIAD

Dymuniadau gorau i Mr Meurig Davies, Llynloew, Bont-goch ar ei ymddeoliad o Fanc HSBC.

EGLWYS ST. PEDR ELERCH

Cynhaliwyd gwasanaeth carolau blynyddol Eglwys Elerch ar 13 Rhagfyr a chyflwynwyd y casgliad eleni i elusen SHELTER CYMRU. Daeth nifer dda ynghyd i'r Cymun Bendigaid am 8-00 ar fore Nadolig. Pregethwyd gan y Parch John Livingstone, ac fe'u cynorthwyd gan Mrs Lona Jones, darllenydd lleyg. Darllenwyd y llithoedd gan Mrs Eirlys Huws. Fel arbrawf newydd pan mae syrthir pump o Suliau mewn mis, cynhelir gwasanaeth ar y cyd rhwng Eglwysi Penrhyn-coch, Elerch a Chapel Bangor ar y Sul olaf. Cynhaliwyd yr ail wasanaeth unedig yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor ar 31 Rhagfyr, wedi llwyddiant y cyntaf yn y Penrhyn



Llongyfarchiadau i Glyn Humphreys, 19 Maes-y-deri, Tal-y-bont ar ei briodas â Guo Chunmei o Tsiena ar 21 Rhagfyr yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Aberystwyth. Cynhaliwyd y derbyniad yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth

ym mis Hydref. Edrychir ymlaen yn fawr at groesawu cyfeillion Penrhyn-coch a Chapel Bangor i Eglwys Elerch ar 29ain Ebrill.

CYFAILL Y PYSGOTWR

Go brin y byddwn yn clywed Steffan Nutting, Ty Hen Henllys yn pesychu yn ystod y misoedd nesa' gan iddo ennill cyflenwad blwyddyn o losin lleddfu annwyd a pheswch 'Fisherman's Friend' mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan y rhaglen C2 ar Radio Cymru yn ddiweddar. Yn ogystal â hyn, enillodd gamera digidol, cryno ddisgiau a nwyddau Radio Cymru.

YSGOLORIAETH

Llongyfarchiadau i Iolo Davies, Doleifion a fu'n un o'r rhai ffodus i dderbyn Ysgoloriaeth yr NFU (i astudio Amaeth) ym mhrynhawn gwobrwy Penweddig yn ddiweddar.

BEDYDD

Ddydd Sul 10 Rhagfyr yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont, gyda'r Parch W.J. Edwards yn gweinyddu a thyrfafwr o deulu a ffrindiau wedi dod ynghyd, bedyddiwyd Dafydd Ynyr, mab bach Dafydd ac Ellyw, Tanrallt, a brawd Betsan a Bedwyr.

DYWEDDÏO

Llongyfarchiadau i Gwenan, Llys Eleri, Tal-y-bont ag Aled, Waunfawr, Sir Gaernarfon ar eu dyweddiad ar ddiwrnod Nadolig. Pob dymuniad da i'r ddau ac i Elaine Hughes a Mike Rowlands, 6 Maes-y-felin, sydd hefyd wedi dyweddio.

BRYSIWCH WELLA

Dymuniadau gorau i Eluned Evans, 82 Maes y Deri, Tal-y-bont; Gwen Hughes, Coetmor; Glenys Jenkins, Penpompren ac Ellen ap Gwynn, Garreg Wen, Tal-y-bont yn dilyn eu triniaethau

yn Ysbyty Bronglais cyn y Nadolig. Gobeithio eich bod chithau Ann Jones, 21 Maes y Deri yn gwella.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â David Owen a'r teulu, 17 Maes y Deri, Tal-y-bont ar farwolaeth ei frawd yng nghyfraith, Dewi Lewis, ym Machynlleth.

GENEDIGAETH

Ganed merch fach, Elin Gaenor i Robert a Llinos Pierce ar 30 Rhagfyr, chwaer fach i William a Gareth, ac wyres fach i Mrs Doris Pierce, 78 Maes y Deri, Tal-y-bont. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu.

YN YR YSBYTY

Yn Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd mae Gareth Hughes, Llys Awel; Mr Bayford, Tŷ Canol, Tal-y-bont a Byron Hopkins, Melindwr, Eglwys-fach. Ac yn Ysbyty Treforus, Abertawe mae Maureen Jenkins, Aber Ceulan, Tal-y-bont. Brysiwch i wella i gyd.

CINIO'R SIOE

Cynhaliwyd cinio blynyddol sioe Tal-y-bont nos Sadwrn, 2 Rhagfyr yn Llety Ceiro. Croesawyd ni i gyd gan ein Cadeirydd, Marion Evans, ac estynnodd groeso arbennig i'r Llywyddion a'r gŵr gwadd a'i wraig, sef Bob a Sue Williams, Penywnern. Offrymwyd gras gan Hefin Llwyd cyn bwyd ac ar ôl cinio eitha blasus, roedd pawb yn edrych ymlaen at ail ran y noson. Cyflwynodd Marion ein gŵr gwadd, ac ar ôl ychydig o eiriau trosglwyddodd gweddill y noson i'w ofal. Bob yw Llywydd presennol Cymdeithas y Gwartheg Duon Cymreig ac ym mis Mai fe fu yn beirniadu cystadleuaeth Buchesu Clwb De Cymru. Bu ef a Sue yn ymweld â chwech ar hugain o ffermydd yn ymestyn o Leominster i Dŷ Ddewi a dod nôl i ardal Aberystwyth a Bow Street. Wrth ymweld â phob fferm, roedd Sue wedi tynnu nifer helaeth o luniau, a thrwy ei help hi yn dangos y sleidiau ag adroddiad manwl ag ambell i stori gan Bob am y cystadleuwyr. Cawsom noson ddifyr iawn yn eu cwmni. Peth braf oedd gweld amryw o ffermydd gyda'r bridwyr yn dod yn selog iawn i sioe Tal-y-bont ers blynyddoedd bellach. Talwyd y diolchiadau gan Evan Jenkins, yr is-gadeirydd.

Thomas Thomas, Blackstone, Awstralia

Y Brawd Enwog


Gwyddom am hanes Lewis Thomas o Dal-y-bont a ymfudodd i Awstralia bythefnos ar ôl priodi Ann Morris yng Ngorffennaf 1859. Merch Humphrey Morris, perchennog Ffatri Ceulan oedd hi, ond gwrthododd fynd gyda'i gŵr ar y fordaith bell, ac aeth deunaw mlynedd heibio cyn iddi benderfynu ymuno ag ef yn Awstralia yng Ngorffennaf 1877. Ar ôl methu yng ngweithfeydd aur Fictoria wedi iddo ymsefydlu gyntaf yn Awstralia symudodd Lewis Thomas ymlaen i Queensland yn Ebrill 1861 ac ef fu'n gyfrifol am ddarganfod a datblygu maes glo West Moreton. Yn 1870 darganfu byllau glo enwog yr "Aberdâr" yn Bundamba ac yn Dinmore. Daeth y pyllau hyn â chyfoeth mawr iddo, a galwyd ef yn "Frenin y Glo" yn nhalaith Queensland. Bu llwyddiant Lewis Thomas yn ysgogiad i nifer fawr o'i gydwladwyr i ymfudo o Gymru i weithio yn y gweithfeydd dan ei ofal. Erbyn hyn yr oedd yn filiwnydd ac yn 1890 aeth ati i adeiladu plasdy trillawr godidog ar fryn uwchben pentref Blackstone, nepell o dref Ipswich, a'i alw'n Brynhyfryd. Lewis Thomas a dderbyniodd y clod am sefydlu'r pentref bach yn Blackstone a ddaeth yn ganolbwynt y bywyd Cymreig yno, a hefyd am sefydlu'r Eglwys Gymraeg Unedig. Ef hefyd sy'n derbyn y clod am sefydlu a noddi'r côr enwog "Blackstone-Ipswich Cambrian", ynghyd â'r mudiad eisteddfodol yn Queensland. Yn 1891 adeiladwyd Ysgol Gelfyddydau deulawr yn Blackstone a noddwyd gan Lewis Thomas. O 1893 i 1899 bu'n aelod seneddol dros Bundamba yng Nghynulliad Queensland ac o 1902 hyd at ei farwolaeth yn 1913 yn aelod o'r Cyngor (sy'n cyfateb i Dŷ'r Arglwyddi) gyda'r teitl "Anrhydeddus" o flaen ei enw. Mae'n siŵr fod 'na wirionedd yn yr hen ystrydeb, "*yn gefn i bob gŵr mawr, y mae 'na wraig fawr*", ond yn achos Lewis Thomas bu'n ffodus iawn i gael brawd "mawr" hefyd. Ysgrifennwyd llawer am Lewis Thomas a'i gyfoeth a cheir cofnod iddo hyd yn oed yn yr *Australian Dictionary of Biography*, ond nid oes sôn am ei frawd Thomas Thomas fu'n gymaint o symbyliad iddo ac yn ddylanwad diwylliannol pwysig ar yr hyn gyflawnodd Lewis yn Awstralia.

Y Brawd Iau

Mae'r ffin rhwng plwyfi Llangynfelyn a Cheulan-a-maesmawr yn gorwedd yn Nantllain ac yn ystod hanner cynta'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yno tua wyth neu ddeg o dai, bythynnod yn bennaf, yr ochr uchaf a'r ochr isaf i'r ffordd, gyda theuluoedd niferus ym mhob un. Yn un o'r bythynnod hyn, ar ochr Llangynfelyn i'r nant y ganwyd Lewis Thomas yn Nhachwedd 1832. Ei rieni oedd Thomas a Mary Thomas. Gwehydd ar wŷdd llaw oedd ei dad, fel nifer dda o ddynion Tal-y-bont yn y cyfnod cyn i'r gwyddiau llaw gael eu mecaneiddio. Byddai'r gwragedd fel arfer yn nyddu ar dröellau. Ganwyd nifer o blant ar wahân i Lewis, sef Elisabeth (1828), David (1830), Margaret (1837), Ann (1839), Thomas (Medi 1842), Joseph (1845) a Mary (1849). Roedd y rhieni'n aelodau yn nghapel Bethel, a bedyddiwyd y plant yno. Gan eu bod yn anghydfurfwr pybyr gwrthododd y rhieni anfon y plant i gael addysg yn ysgol yr Eglwys, fel yn achos David Adams yntau, ac fe'u hamddifadwyd o addysg gynnar. Wedi cynilo'r ychydig geiniogau cyntaf, fe gerddodd Thomas filltiroedd i brynu llyfr. Yna prentisiwyd Thomas gyda theiliwr o'r enw Richard Jenkins a'i wraig Mary a'u tri mab ym Mhenrhylog. Ymhen ysbaid aeth i weithio yn Aberystwyth ac yna yn Llundain lle yr enillodd ei dystysgrif fel Prif Deiliwr a Thorrwr Dillad. Wedi cymwysu'i hyn yn y grefft aeth i weithio i gwmni yn Aberhonddu, ac yn 1863 priododd Elisabeth Roberts, merch ei gyflogwr, yng nghapel Annibynnol y Plough yn y dref honno. Ymgartrefodd yn rhif 2 Stryd y Castell gan sefydlu busnes fel teiliwr a dilledydd ac yno y magwyd eu tri plentyn, Lewis (1864), Elisabeth (Besi, 1867) a Mary (a elwid hefyd yn Polly, 1870). Bu Thomas Thomas yn flaenllaw iawn gyda gweithgareddau'r capel a'r mudiad dirwest yn Aberhonddu cyn iddo ef a'i deulu benderfynu ymfudo i Blackstone, Awstralia yn Nhachwedd 1885.

Ei Gyfraniad Mawr

Wedi cyrraedd Blackstone sylweddolodd Thomas fod holl Gymry'r ardal honno yn addoli mewn bwthyn a fenthycwyd iddynt gan ei frawd cefnog Lewis. Aeth ati ar unwaith i geisio perswadio'i frawd i gynnig darn o dir a nawdd ariannol ar gyfer adeiladu capel newydd, a Thomas oedd y grym pennaf y tu ôl i sefydlu'r Eglwys Gymraeg Unedig yn Blackstone yn 1886 er mwyn i'w gydwladwyr allu addoli yn eu mamiaith mewn gwlad estron. Besi, merch hynaf Thomas oedd organyddes gyntaf y capel, hyd nes iddi briodi John Morris (nid brawd hynaf Lewis Morris, Ffatri Ceulan) a symud i Brisbane. Am nifer go dda o flynyddoedd



Thomas Thomas

Thomas Thomas a John Owens o Ipswich fu'n pregethu a chynnal y gwasanaethau yn y capel hyd nes i'r ddyled arno gael ei dileu. Gweithredodd Thomas fel gweinidog answyddogol hyd at 1899 gan fedyddio a chladdu'r rhan fwyaf o'r trigolion Cymreig. Wedi hynny roedd yr eglwys mewn sefyllfa i gyflogi gweinidog ordeiniedig. Yn fuan ar ôl cyrraedd Blackstone rhoddwyd iddo'r cyfrifoldeb o reoli gweithfeydd maes glo Aberdâr ar ran ei frawd Lewis, ac ymhen rhai blynyddoedd ef oedd yn goruchwyllo holl eiddo'i frawd.

Gŵr Diwylliedig

Bu Thomas yn eithriadol o weithgar gyda'r ymgyrch i sefydlu côr ac eisteddfod yn y capel yn Blackstone yn 1886 a 1887. Bu'n gadeirydd pwyllgorau ac yn arweinydd yn ogystal â beirniadu'r cystadlaethau llefaru ac areithio. Wedi marwolaeth ei wraig yn 1890, roedd ei ferch Mary (a elwid hefyd yn Polly) yn cynorthwyo gyda meithrin y doniau ifanc yn Blackstone mewn cerddoriaeth ac ymdrechion llefaru ac areithio. Er mai gan Lewis yr oedd y cyfoeth mawr, bu perswâd Thomas arno yn fodd i'w gael i adeiladu Ysgol Gelfyddydau gyda llyfrgell, ystafelloedd darllen ac ystafelloedd billiards, a Thomas oedd cadeirydd y pwyllgor rheoli hyd ei ymadawiad i Brisbane yn 1899. Yn Brisbane bu Thomas yn flaenllaw yn yr eglwys annibynnol yno hefyd, hyd nes iddo ddychwelyd i Blackstone yn 1903. Siom fawr iddo oedd darganfod bod y cymhorthdal i'r Ysgol Gelfyddydau wedi ei ddiddymu, ond buan y llwyddodd i'w adfer ar ôl ei ail-benodi'n gadeirydd y pwyllgor drachefn. Erbyn ei farwolaeth yn 1909 roedd Thomas wedi ei benodi'n Llywydd a Thrysorydd yr Ysgol Gelfyddydau. Cymaint oedd ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth fel y bu iddo hefyd sefydlu Gobeithlu Unedig yn ogystal â Band Chwibanogl a Drymiau a ddaeth yn ddiweddarach yn Seindorf Bres Blackstone. Mawr oedd ei ddiddordeb yng Nghôr Cambrian Blackstone-Ipswich, ac ychydig cyn ei farw dychwelodd i bregethu yn Eglwys Gymraeg Blackstone ac i sefydlu Dosbarth Beiblaidd Cymraeg i'r bobl ifanc. O ran ei wleidyddiaeth, Rhyddfrydwr rhonc ydoedd tra yng Nghymru ac ar ôl ymfudo i Awstralia, a hyd at y diwedd dilynodd gyda brwdfrydedd hynt a helynt y blaid honno. Bu farw yn Brisbane yn Chwefror 1909 ac fe'i claddwyd ym mynwent Ipswich nepell o Blackstone, lle y claddwyd Lewis hefyd yn 1913.

Dathlu'r Wyl

atodiad arbennig

Ysgol Gymunedol Llangynfelyn

Cyngerdd WI

Ar nos Lun, Rhagfyr 11eg, bu côr yr ysgol yn diddanu nifer o drigolion yr ardal yng nghyngerdd blynyddol Sefydliad y Merched yng Nghapel Rehoboth. Cafwyd nifer o wahanol eitemau, gan gynnwys eitemau gan Gôr Meibion Powys. Bu'n noson llwyddiannus iawn, ac roedd pawb wrth eu bodd.

Cyngerdd a Sioe yr Ysgol

Bu canmol mawr yn dilyn perfformiadau'r plant yn y sioe Nadolig eleni eto. Cafwyd stori'r Nadolig cyntaf yn ei symylrwydd gan y plant lleiaf, ac yna cafwyd alegori o stori'r Nadolig gan y plant hyn, a oedd yn peri i bob gwyliwr a gwrandawr feddwl yn ddwys am ystyr y Nadolig. Ynghyd a pherfformiadau gan y gerddorfa, y grwp pres, y grwpiau ffidil a recorder, cafwyd noson lwyddiannus iawn, ac roedd pawb – y gynulleidfa, y disgyblion a hyd yn oed y staff (!) wrth eu bodd. Diolch i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw ffordd.

Ymweliad â'r Sinema

Fore Mawrth Rhagfyr 19eg, bu disgyblion yr ysgol yn ffodus iawn i gael mynd i'r sinema i weld ffilm. Eleni cawsant weld "Hoodwinked", fersiwn newydd o stori'r Hugan Fach Goch. Roedd pawb wrth eu bodd ac wedi mwynhau yn arw iawn.

Gweithgareddau'r Nadolig

Bu wythnos olaf yn doreth o weithgareddau i ddatlu'r Nadolig, Cafwyd parti Nadolig, pan gafwyd ymweliad gan Sion Corn ei hunan, cinio Nadolig arbennig iawn unwaith eto, diolch i waith dygn Mrs Hicks, a hyd yn oed Barti Aelwyd yr Urdd. Cafodd pawb bentyrrau o fins peis a chacennau a bwydydd melys, Gorffennwyd y tymor gyda diwrnod o gemau ar y dydd Gwener.

Fel ysgol, dymunwn flwyddyn newydd iach a llewyrchus i bob darllenydd Papur Pawb.
Blwyddyn Newydd Dda!

Diwrnod Nadolig yn Elerch

Roedd yn oer iawn fore'r Nadolig ym Mont-goch ond ni fethodd nifer o'r pentrefwyr â mynychu'r gwasanaeth trddodiadol yn Eglwys Elerch. Diolch i Richard Huws am dynnu'r llun.



Mair a Joseff â'r baban Iesu



Ymweliad Siôn Corn ag Ysgol Llangynfelyn



Cafwyd coeden Nadolig arbennig ei gosod yn Nhrêr Ddôl eleni, a gwelir y disgyblion yn canu wrth droi'r goleuadau ymlaen.



Henoed Tal-y-bont yn mwynhau eu cinio nadolig yn y Llew Du



Nadolig Yr Ysgol Feithrin

Ar y 14eg o Ragfyr bu plant y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi ar ymweliad â Phentre' Bach ym Mlaenpennal. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael eu tywys o gwmpas y tai a chwrdd â Sali Mali yn y caffi. Uchafbwynt y bore oedd derbyn anrheg yr un gan Siôn Corn. Cafwyd bore bendigedig gyda'r plant yn gofyn am gael dychwelyd yn fuan. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i'r Cylch yw'r cyngerdd Nadolig a gynhaliwyd eleni yn y Neuadd Goffa ar y 18fed o Ragfyr. Darllenwyd stori'r geni gan Delyth Ifan wrth i'r plant ddod i'r llwyfan yn eu gwisgoedd. Bu'r plant yn canu nifer o'u hoff garolau. Gan fod pob un o'r plant yn dod o gartrefi di-gymraeg roedd hyn yn dipyn o gamp. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

Cynhaliwyd parti Nadolig y Cylch ar y cyd a'r Cylch Ti a Fi yn y Neuadd Goffa ar yr 21ain o Ragfyr. Yn dilyn parti blasus cafwyd ymweliad gan Siôn Corn a oedd yn garedig iawn eto eleni wedi dod ag anrheg i bob un o'r plant.

Pob hwyl i Anwen arweinyddes y Cylch sydd ar gyfnod mamolaeth tan Pasg.



Ysgol Sul Bethel

Diolch am y cyfraniadau hael a dderbyniodd y carolwyr a fu o amgylch ar 23 Rhagfyr. Bydd y £163.40 yn cael ei ddefnyddio i barhau i noddi Muke Sodi gyda'r elusen 'Action Aid'.

Heb os ac oni bai, uchafbwynt blynyddol yr Ysgol Sul (a llawer iawn eraill mae'n debyg) yw'r gwasanaeth noswyl Nadolig. Bu cryn drafod, sgriptio, paratoi ac ymarfer cyn y noson bwysig, a'r cyfan yn werth pob dafn o chwys!

Penderfynodd yr ieuencid, gyda'u hathrawon, eleni i lunio golygfa wreiddiol a gafaelgar ar y thema 'Oes Gafr Eto?' yn seiliedig ar ymgyrch anrhegion Nadolig yr elusen OXFAM.

Arweiniodd hyn at anrheg fwy'r byd, genedigaeth y baban Iesu ym Methlehem a gafodd ei pherfformio gan y plant cynradd. Gwnaethpwyd casgliad ar ddiwedd y gwasanaeth i ymgyrch anrhegion Nadolig OXFAM.

Braf oedd cael cyfarchion arbennig ar Ionawr 1af gan griw bach o fore godwyr – da iawn chi.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn ar 14eg o Ionawr – croeso cynnes i bawb.



Dilyn traddodiad



Mae'r hen draddodiad o ganu calenning yn parhau yn Nhal-y-bont. Dyma'r criw a fy wrthi'n blygeiniol fore dydd Calan yn canu ym Maes-y-felin. Codwyd £90 at achosion da.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
105-y-coed, Tre Talleis, MACHYNELLETH
Pwys 0125 830 Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)12970 832230 afiaith@aol.com

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Staff Newydd

Wrth edrych ymlaen at dymor newydd, mae’n braf cael croesawu aelod newydd o staff yn yr ysgol. Bydd Emma Davies o Daliesin yn dechrau gweithio yn y Dosbarth Derbyn o fis Ionawr. Croeso cynnes i’r ysgol.

Braf hefyd oedd cael croesawu Jennifer Jones yn ôl i’r ysgol ar ôl teithio bedwar ban byd yn ddiweddar.

Pantomeim Mega

Er gwaethaf ein prysurdeb ni wrth gynnal ein panto ein hunain fe gafwyd ddigon o amser i fwynhau cyfnod y Nadolig hefyd. Fe aeth yr ysgol gyfan i weld Pantomeim blynyddol Cwmni Mega eleni eto. Roedd y stori am garwriaeth Pwyll a Rhiannon o’r Mabinogi, ac fe gafodd pawb hwyl yng nghwmni’r actorion, y cerddorion a’r dawnswyr yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Sinema

Hoffai’r ysgol ddiolch o galon i’r Pwyllgor Rhieni am fod mor gefnogol i’r ysgol dros yr ŵyl. Yn ogystal â pharatoi’n drylwyr ar gyfer y panto, penderfynodd y Pwyllgor i barhau â’r traddodiad o dalu i bob disgybl fynd i Sinema’r Commodore ar ddiwedd y tymor, fel rhodd am waith da dros y flwyddyn.

Henoed

Bu nifer o blant yr ysgol yn cynnal adloniant yng nghinio Nadolig “Age Concern” eleni eto. Diolch i Mrs Falyri Jenkins a Mr Alan Phillips (athro pres yr ysgol) am drefnu amrywiaeth o eitemau i helpu dreulio’r twrci!



Band Prês yr ysgol yn perfformio yn ystod seromoni goleuo y goeden Nadolig



Arolygwyr lein fach yr Hafan

Pantomeim yr ysgol

Ynghanol mis Rhagfyr, cynhaliwyd ein cyngerdd Nadolig blynyddol. Eleni, tro’r panto oedd hi. Dechreuwyd y noson gydag eitemau cerddorol amrywiol gan ddisgyblion yr ysgol cyn dechrau’r perfformiad.

Roedd y panto eleni’n sôn am helyntion Siôn Corn yn cael “Tom Tom” newydd i’w helpu i gyrraedd holl dai’r byd mewn pryd. Ond ... yn nhraddodiad gorau’r pantos, doedd pethau ddim cweit wedi gweithio fel y dylent. Torrodd y “Tom Tom” i lawr ym mhentref Tal-y-bont, ac fe fu’n rhaid defnyddio ychydig o lwch hud Santa (a Bond, Tal-y-Bond) i ail greu rheilffordd Lein Fach yr Hafan i gwblhau’r dasg o ddosbarthu’r anrhegion i bawb.

Hoffai’r ysgol ddiolch o galon i bawb a gefnogodd ein pantomeim eleni. Roedd hi’n hyfryd i weld y Neuadd Goffa dan ei sang ac roedd hi’n braf i weld cymaint o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn bresenol hefyd.



Siôn a Siân Corn (Eilir Huws a Luke Davies) yn paratoi ar gyfer y noson fawr



Y ceirw yn disgwyl eu tro



Aelodau o Band Prês Tal-y-bont o flaen siop y pentref



CANTORION DYFI

Cynhaliwyd gwasanaeth carolau a cherddoriaeth Nadoligaidd yn yr eglwys yn Eglwys-fach ar nos Sul 17 Rhagfyr yng nghwmni Cantorion Dyfi. Cyfarwyddwr Cerdd y côr yw Alvena Gould o Ffwrnais ac hefyd yn canu yn y côr mae Pat Bayliss a Polly Henderson o Daliesin a Polly Stills o Ffwrnais. Perfformiwyd caneuon gan Alun Hoddinott a D Tawe-Jones yn ogystal â gwaith Britten a Handel. Ar y diwedd gwnaed casgliad ar gyfer nifer o elusennau.



Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com

yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com



GYRFA CHWIST Y SIOE

Cynhaliwyd gyrfa chwist flynyddol y Sioe yn y Neuadd Goffa nos Fercher, 20 Rhagfyr. Cafwyd noson eitha llwyddiannus gyda dau ddeg wyth o fyrddau, ychydig yn llai nag arfer. Glyn Davies oedd yr M.C.

Cafwyd hwyl ar y chwarae, a braf oedd gweld hanner amser yn dod er mwyn cael sgwrs a lluniaeth fel arfer. Marion ag Ann fu'n paratoi y raffl fach ac fe werthwyd y tocynnau yn dda ar y noson.

Wedi'r egwyl, cychwyn eto ar y chwarae ag fe enillwyd yr ŵydd am y sgôr uchaf (178) gan Eddie o Aberteifi.

Tynnwyd gwobrau y ddwy raffl gan ein llywyddion a dyma'r prif enillwyr:

- £60 Alan Drake
 - £40 Nesta Edwards (Cartref Tregerddan)
 - £30 Anwen Davies, Swyddffynnon
 - £20 Chris ac Andrew Morel, Bontgoch
 - £30 Jennifer Davies, Swyddffynnon
 - £10 Wyn James, Fronfraith Fach
 - £10 John Bond, Taliesin
 - £10 Meirion (Y Côr)
 - £5 Tamelin, Llannerch, Bontgoch
 - £5 E.O. Jones, Berthlwyd
- Yn y raffl fach ar y noson, enillodd sawl person lleol wobrau hefyd. Marion Evans, ein cadeirydd a ddiolchodd i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth i'r noson.

C.F.F.I TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Cafwyd dwy noson o ganu carolau oddi amgylch ardal y clwb eleni eto. Casglwyd swm o £2,250, i'w rannu rhwng yr elusennau canlynol: Ymchwil Cancr Cymru, Debra Fund a 'Send a Cow' – cynllun gyda Oxfam. Llauer o ddiolch i bawb am eu croeso â'u cyfraniadau.

Ar nos Fawrth cyn Nadolig cafwyd ein Parti Nadolig, a gynhaliwyd eleni yn y Wildfowler, Tre'r Ddôl. Braf oedd gweld dros hanner cant o aelodau a ffrindiau'r clwb gyda'u gilydd yn cael hwyl wedi'r holl ganu yr wythnosau blaenorol.

Hoffwn estyn croeso i chi ymuno â Chlwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yn ein Noson Bingo a gynhleir ar nos Fercher, 17 Ionawr, am 8.00yh yn Neuadd Goffa Tal-y-bont – mi fydd yn gyfle i bawb fwynhau a chymdeithasu.

Monica yn Sierra Leone

Mis Tachwedd y llynedd, treuliais fis yn Sierra Leone yn gweithio i'r RSPB a'u partner Cymdeithas Gwarchod Sierra Leone. Roeddwn i yno i ymchwilio i addysg amgylcheddol yn y wlad, gan edrych ar lyfrau gosod Ysgolion Uwchradd a oedd wedi cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu gan CSSL, gyda chefnogaeth RSPB yn y naw degau cynnar. Tua'r un amser a phan ddechreuwyd dosbarthu'r llyfrau, cychwynnodd rhyfel cartref ofnadwy a effeithiodd yn drychinebus ar y wlad. Cafodd miloedd o bobl eu lladd a'u hanafu, dinistriwyd pentrefi a bu raid i nifer o bobl ddianc am eu bywydau. Yn 2002 cyhoeddwyd bod y gwrthdaro ar ben ac ers hynny, gyda chymorth rhyngwladol, maent yn ailadeiladu cartrefi ac ysgolion.

Gweithiais yn bennaf yn y brif-ddinas, Freetown ond bum yn Kenema yn y Dwyrain am wythnos. Yma mae CSSL a RSPB yn y broses o sefydlu gwarchodfa yn fforest law Gola gan weithio gyda chymunedau lleol i ddarparu ffyrdd o gyd-fyw gyda'r goedwig. Ymwelais ag ysgolion Uwchradd ble mae'r athrawon yn hwyr yn cael eu talu ac yn dysgu dosbarthiadau hyd at 120 o ddisgyblion. Mae ysgolion uwchradd mor llawn fel eu bod yn gorfod gweithio sifftiau, y disgyblion ifancaf yn y bore a'r rhai hyn yn y pwn. Pan oeddwn yno, roedd y myfyrwyr wedi cynllunio a pherfformio drama anhygoel ar destunau amgylcheddol megis torri coed yn anghyfreithlon a hela a lladd mwnciod.

Yn Freetown ymwelais a'r Weinyddiaeth Addysg er mwyn gweld faint o bwyslais oeddynt yn ei roi ar faterion amgylcheddol wrth gynllunio'r cwricwlwm a beth oedd y problemau mewn addysg. Mae llawer ohonynt.



Yn anffodus, nid oeddwn yn gallu ymweld â'r ysgol yn Freetown sydd wedi gefeillio ag ysgol Tal-y-bont, gan fod Tom Cairnes, (a oedd yn yr ysgol gyda fy merch, Cathryn) allan o'r wlad y rhan fwyaf o'r amser yr oeddwn yno, ond llwyddais i'w gyfarfod i roi'r llythyrau a ddaeth o Ysgol Tal-y-bont ac i glywed am ei fywyd yn Sierra Leone. Dywedodd fod y plant yn ei ysgol yn mwynhau darllen y llythyrau'n fawr. Cefais groeso mawr pan ymwelais ag ysgol arall a theimlais yn gartrefol pan ofynnwyd i mi pa dîm pêl-roed oeddwn yn ei gefnogi Man U neu Lerpwl!

Cefais amser pleserus a diddorol yno. Gwnaethum ffrindiau newydd a chesglais wybodaeth a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu prosiectau i hybu ymwybyddiaeth ac i ymateb i faterion amgylcheddol sydd yn cael effaith ar fywyd pob dydd pobl Sierra Leone.

Monica Lloyd-Williams

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Pencfefen ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Cymorth gan yr Aelod

Mae hen system o danciau a adeiladwyd yn y ganrif ddiwethaf i ddarparu cyflenwad o ddwr i bentrefwyr Talieisin yn y cae tu ôl i gartref John a Mai Leeding. Mae wedi bod yn segur ers pan ddaeth y Bwrdd Dwr i'r pentref a heb gael ei atgyweirio yn ystod yr amser hynny ac yn naturiol mae ei gyflwr wedi dirywio.

Dechreuodd un o'r tanciau orlifo cyn y Nadolig ac unwaith wedi hynny ac fe gafodd John a Mai gryn waith torri cafan i gyfeirio'r dwr yn ôl i'r nant. Er sawl galwad ffôn nid oeddent yn medru cael unrhyw asiantaeth i gymryd cyfrifoldeb, felly galwyd ar Aelod y Cynlliad, Elin Jones, i geisio ddod o hyd i'r ateb. Bellach mae Elin wedi cysylltu ag Adran yr Amgylchedd a gobeithir y gellir datrys y problem yn fuan.

Papur Pawb 25 Mlynedd yn ôl

Rhai pytiau wedi eu dethol o rifyn Ionawr 1982



‘Yn waeth na 1947’, dyna yw y farn gyffredinol ar y storm o eira a ddaeth ag anhrefn llwyr i’r ardal hon, ac i weddill Cymru, ar ddydd Gwener, 8 Ionawr. Erbyn heddiw, 14 Ionawr, mae pethau’n gwella’n raddol ond mae llawer o ffyrdd yn dal i fod ar gau a’r eira yn gorwedd mewn twmpathau ar ochr y strydoedd ym mhob pentref yn y cylch. Fe fydd yn wythnosau cyn i’r eira glirio i gyd ac i bawb i gyfri’r gost.

Daeth y storm yn ddisymwth yn gynnar ar fore Gwener, 8 Ionawr. Aeth llawer i’r gwaith i Fachynlleth neu Aberystwyth yn ôl eu harfer a darganfod wedi hynny ei bod yn amhosibl iddynt ddychwelyd i’w cartrefi erbyn y prynhawn. Syrthiodd eira trwm a chwythai’r gwynt yn ddibaid gan achosi lluwchfeydd anferth. Bu raid i lawer adael eu ceir ar y ffordd fawr a gorchuddiwyd llawer ohonynt gan luwch o eira. Roedd y lluwchfeydd yn cyrraedd lan i oddeutu 15 troedfedd mewn rhai mannau ac yr oedd yn rhaid i rai bobl gerdded adref ar hyd y cloddiau. Bu rhai gwirfoddolwyr allan yn nannedd y gwynt ar brynhawn Gwener i gynnig help i’r henoed ond yn y pen draw bu rhaid gohirio’r gwaith o glirio eira tan y bore canlynol. I waethygu’r sefyllfa, torrwyd y gyflenwad drydan ar nos Wener hyd at amser cinio ddydd Sadwrn.

Gwreiddiau

O ble ydych chi’n dod? Pwy ydych chi? Beth yw eich gwreiddiau? Pwy oedd yn byw yn eich tŷ chi ganrif yn ôl? Er mwyn ateb y cwestiynau hyn, mae mwy a mwy o bobl heddiw yn troi at hel eu hachau ac ymchwilio i hanes eu tai. Nid yn unig mae yna gronfeydd data ar y We, ond hefyd ffynonellau di-ri ar bapur neu femrwn yn eich llyfrgelloedd ac Archifdai. Ond ble i ddechrau? Gellir mynychu cyrsiau yn lleol ar hanes teulu, hanes tai a hen lawysgrifen, a gynhelir gan Brifysgol Cymru Aberystwyth. Cynhelir y cyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg, ond bydd nifer o enghreifftiau o ddiddordeb lleol a Chymreig yn cael eu defnyddio yn y dosbarthiadau. Cysylltwch â Dr Luned Mair Davies ar Ind@aber.ac.uk am ragor o fanylion.

Elin Jones AC – O’r Cynulliad

Blwyddyn newydd dda i bawb a gobeithio i chi fwynhau’r Nadolig. Gyda’r gwyliau bellach wedi dod i ben mae’n bryd ailddechrau ar y daith wythnosol i lawr i Gaerdydd. Roedd fy wythnos olaf yn y Senedd ar ddiwedd 2006 yn un brysur tu hwnt. Yn dilyn y trafodaethau uniongyrchol rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth y Cynulliad fe ddaeth cytundeb a oedd yn golygu swm sylweddol



o gyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion, sef £11.6m. Mae yna hefyd £6m o gyllid ychwanegol ar gyfer ein prifysgolion. O ran Tir Mynydd, fe fydd y Pwyllgor Amaeth yn cael cyfle i ailedrych ar gyllideb y cynllun yn y flwyddyn newydd gyda’r gobaith o gynyddu taliadau i’n ffermwyr yn 2007-08.

Ar drothwy’r Nadolig, daeth ergyd i’n swyddfeydd post gwledig o gyfeiriad Llywodraeth Lafur San Steffan. Bydd 1 mewn 6 o’n swyddfeydd post yn cau o fewn y blynyddoedd nesaf, ac mae’n debyg y bydd Ceredigion yn cael ei heffeithio’n fawr gan hyn. Mae’r Llywodraeth wedi bod yn tanseilio dyfodol ein swyddfeydd post gwledig drwy leihau’r gwasanaethau a gynigir yno. Rhaid i ni barhau i frwydro dros ein rhwydwaith o swyddfeydd post yng Ngheredigion ac rwy’n falch iawn bod y Cyngor Sir wedi penderfynu gwrando ar argymhellion Plaid Cymru a chyflwyno’r opsiwn o dalu treth y cyngor yn y swyddfa bost leol – gobeithio bydd hyn yn rhoi rhywfaint o hwb i’n rhwydwaith lleol.

Mae’r Cynulliad yn darparu arian yn arbennig er mwyn sicrhau bod pob tŷ a busnes yng Nghymru’n gallu derbyn gwasanaeth band-eang felly rwyf wedi bod yn casglu enwau’r rhai sy’n methu derbyn y gwasanaeth hwn yng Ngheredigion.

TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa’r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos





Cardi yn Gadeirydd

Llongyfarchiadau i Rowland Davies, Dolclettwr sydd wedi cael ei benodi yn Gadeirydd Cenedlaethol Cymdeithas defaid Moel a Chorniog Dorset. Pob dymuniad da iddo yn ei waith.

Hefyd, yng nghyfarfod blynyddol defaid Dorset yn ddiweddar cafodd Rowland Davies ei gyflwyno gyda chwpan goffa Peter Mead am y person a gyfranodd fwyaf i Gymdeithas y defaid Dorset yn ystod y flwyddyn.

Cyfarfod y Chwiorydd Rehoboth

Ar brynhawn Mawrth, Rhagfyr 12fed, cyflwynodd Eirlys ein gwraig wadd, sef Mrs Megan Evans, o Benparcau. Mae'n adnabyddus am ei chasgliad o lieiniau llestri te o wahanol wledydd trwy'r byd.

Roedd stori ddiddorol ganddi am ei chysylltiad a dwy wraig o Awstralia a ddaeth yn ffrindiau mawr iddi ers 1996. Digwyddodd hyn trwy iddynt ddarllen cylchgrawn yn dangos ei lluniau a'i hanes. Yn fuan wedyn, cyrhaeddodd parsel heb gyfeiriad cywir ar garreg ei drws dim ond 'The Tea Towel Lady, Aberystwyth, Wales' arno wedi dod yr holl ffordd o Awstralia! Ers hynny, datblygodd cyfeillgarwch arbennig rhyngddynt.

Cawsom brynhawn cartrefol yn ei chwmni yn gweld yr anrhegion di-ri a dderbyniodd oddi wrthynt. Stori hapus tu hwnt. Gan ein bod yn agosau at y nadolig roedd Anne ac Edna wedi paratoi te a mins peis. Diolchodd Mai am brynhawn arbennig.

NJ

Cyngerdd Dechrau'r
Gwanwyn
yng nghwmni

**John ac Alun,
Dafydd Iwan a'r Band
a Dilwyn Pierce.**

9 Chwefror 2007 am 7.30
yng Nghanolfan Bro Ddyfi,
Machynlleth

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Trip o'r 50au



Trip Capel Bethel yn y 50au i gartref "Elfed"

Yr oedd yn ddiddorol gweld llun o'r trip Capel Bethel i gartref Elfed yn rhifyn Rhagfyr 2006 o *Papur Pawb*, a hoffwn roi enwau i'r bobl yn y llun.

O'r chwith i'r dde:
Rhes flaen: Miss Agnes Morgan, Lerry Stores; Frederick Davies, Glasfryn; Elizabeth Royle, Felinfach; Megan Evans, Rhydfach.

Ail res: Mrs Blodwen Jones, Tegfan; Miss Iola Jones, Haulfryn; Mrs Annie Meorah Jones, Stryd James; Miss Morgan, Y Byngalo; Mrs Phyllis Williams, Arfryn; Miss Marie Evans, Delfryn; Miss Mary Ann Lewis, Bridgend; Mrs Gwladys Morris, Glennydd; Mrs Gwennie James, Tanybryn; Mr Lewis Morris, Glennydd.

3ydd rhes: Miss Dorothy Owen, Ynyscapel; Mrs Mary Katie Davies, Glasfryn; Mrs Annie Jenkins, Cwm Road; Mrs Dora Ebenezer, Stryd Pantycalch; Edward John Williams, Brynteg; John Owen Ellis, Y Glyn; Tim Evans, Penlon; Caradog James, Tanybryn

Rhes ôl: David Jones, Tyhen; J.R. Jones, Werndeg; Gwilym Jenkins, Tynygraig; Parch D. Morlais Jones, Maesmawr.

A.J.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

CHWARAEON

Dartiau Merched



Daeth timau dartiau merched y Llew du a'r Llew Gwyn (B) at ei gilydd cyn yn Nadolig i ddathlu'r Wyl gyda thwrnament cyfeillgar yn y Llew Du. Mae'n amlwg o'r llun iddynt gael hwyl arni! Cath Williams o'r Llew Du enillodd y gystadleuaeth a daeth Anwen Southgate o'r Llew Gwyn yn ail...

...a bu tîm y Llew Gwyn (A) isod hefyd yn dathlu yn y Llew Gwyn cyn y Nadolig. Pob lwc i'r tri thîm yn ystod gweddill y tymor.



Golffiwr Dawnus

Llongyfarchiadau i Jamie Evans, Maes-y-deri ar ennill twrci a nifer o wobrwyon eraill yng nghystadlaethau 'Turkey trail' Clwb Golff Borth ac Ynyslas cyn y Nadolig. Dyma Jaimie gyda rhai o'r gwobrwyon ond nid y twrci a oedd yn ddiogel yn y ffwrn yn barod ar gyfer y cinio Nadolig.



CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensoernïol
Gellinrecreidd, Tal-y-bont, Llandudno SY24 5HL
01970 832760

AM EICH HOLL
ANGHENION BRODWAITH,
CROESBWYTH A
THAPESTRIAU

GALWCH YN
**PWYTHAU'R
SGUBOR**

GER SIOP GOFFLA
CHREFFTAU PENNAU,
RHYDYPENNAU, BOW
STREET, ABERYSTWYTH
FFÔN: 01970-820122



Cystadleuaeth Dartiau

Cynhaliwyd cystadleuaeth dartiau arbennig yn y Llew Gwyn ar 29 Rhagfyr gyda naw tim o barau yn cystadlu am Darian Swift a gyflwynwyd gan Nick Hughes. Yr enillwyr oedd Dave Byrne ac Anwen Southgate.

Eilyddion yn Ennill

Cafodd eilyddion Tal-y-bont ddechrau da i'r flwyddyn newydd wrth iddynt guro Llanilar o bum gôl i ddwy ar Faes Dolclettwr. Y sgorwyr oedd Jamie Barron (ar fenthg o'r tîm cyntaf) a sgoriod dair, Todd Penfold a Steffan Fleming, ond roedd angen i Iestyn Roberts yn y gôl arbed ergydion ar sawl achlysur, gan gynnwys yr un yn y llun, wrth i Lanilar bwyso yn yr ail hanner.



Cricedwr Newydd

Mae un o hoelion wyth tîm criced Tal-y-bont a gohebydd criced Papur Pawb yn dad! Ganwyd mab, Alun, i Owen Roberts, a'i wraig Catrin ar 3 Ionawr. 'All rounder' newydd?

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.



I.O. Thomas a'i Fab
Cigydd, Penygarn

Cig Ffres i'r Rhewgell, Seliog Cartref
Oen Cymru, Cig Eidion Gorau
Ffôn: (01970) 828447

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am barmffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111